CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd yn union wedi Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

Presennol:
Cadeirydd: Cyng Nicky Redmond, Cyngr: Jan Culley, Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, Richard Rose, Clive Wychwood

CC A Edwards

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd fel y cafodd ei gyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 03-04-23**

| | Penderfyniad | Cynigiwyd | Eiliwyd |
|---|---|---|---|
| Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir | Cyng C Lewis | Cyng A Edwards | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Dywedodd y Cyng A Edwards fod Cabinet CSC wedi cael amrywiol adroddiadau statudol. Roedd darparu tai cymdeithasol i gael ei ail.-lunio a nododd fod grant ar gael ar gyfer adnewyddu tai gwag. Roedd hi wedi siarad â CNC ond heb gael ateb a byddai'n codi'r mater gyda Ben Lake AS. Dywedodd

fod problemau wedi bod gyda chŵn yn y pentref a bod adroddiad wedi ei wneud am y mater. Roedd hi wedi delio â nifer o faterion ar ran trigolion.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

*7.1 Taliadau Misol*

| | Taliadau Mai 23 | | |
|---|---|---|---|
| 02/05/2023 | S Davies | Cyflog Gros,  SC | 471.22 |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd Anf 938 | 24.00 |
| | N Redmond | Regalia | 42.85 |
| | Archwilio Cymru | Ffioedd archwilio 20/21 | 200.00 |
| | Un Llais Cymru | Hyfforddiant | 35.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Talwyd | | |
| Cyflog Llyw. y DG | Cofrestri teitl x 7 | 21.00 |
| Royal Mail | K Symmons a llwybrau troed | 6.15 |
| Ailgylchu LAS | | 26.01 |
| Standard Signs and Traffic Systems Ltd | Arwyddion Diffib | 111.75 |

| | **I dalu** | | |
|---|---|---|---|
| 15/05/2023 | Kirilee Entertainments | Jiwbilî Lleiswyr | 200.00 |
| | Earth Anchors Ltd. | Drws newydd yr hysbysfwrdd | 267.48 |
| | N Redmond | Gwesteion yng nghinio'r Cadeirydd | 60.00 |
| | BHIB | Yswiriant | 1,603.92 |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd, 954,965,966 | 70.00 |

Nodwyd mai un cwmni yswiriant yn unig oedd wedi cyflwyno dyfynbris gan fod gwaith heb ei wneud a risg llifogydd ar ôl o hyd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno. | Cytunwyd |

*Oriau'r Clerc*

Dywedodd y Clerc fod ganddi 7.25 o 37 o oriau misol ar ôl ar ddiwedd 12-05-23 a bod llawer iawn o faterion rheolaidd i'w cwblhau a gwaith prosiect yn dal i'w wneud.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Clerc i logio unrhyw oriau ychwanegol a'r taliad i gael ei wneud ym mis Mehefin. Oherwydd bod y llwyth gwaith yn newid yn y sector, dylid gwneud arolwg o'r oriau gweithio. Ar gais y Clerc, dylai hynny gael ei wneud ar ôl i'r prif brosiectau gael eu cwblhau. | Cytunwyd |

Nodwyd cais y Clerc na ddylid ymgymryd â dim prosiectau pellach (ar wahân i unrhyw waith trwsio ac ati) nes bydd prosiectau cyfredol wedi eu cwblhau.

Dywedodd y Clerc fod batri'r gliniadur yn para tuag awr a'i fod nawr yn rhwystredig o araf. Deallai y gallai batri sy'n ffaelu achosi perygl tân.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn i Telemat roi dyfynbris am liniadur a system newydd, gan gynnwys meddalwedd os byddai angen. | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*
Gweler Diwedd Blwyddyn

*7.2 Diwedd blwyddyn*
*7.2.1 Nodi drafft cyntaf dogfennau'r Cyfrifon Diwedd Blwyddyn*
Nodwyd.

*7.2.2 Archwiliad mewnol*
Yn holi am archwilydd.

*7.3 Cyfarfodydd y dyfodol*
*7.3.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor*

Nid oedd y cyfieithydd a ddefnyddir gan Gyngor Tref Aberteifi yn cymryd dim gwaith ychwanegol ac ni allai ddweud sut y byddai cyfarfodydd hybrid yn gweithio. Dywedodd y Cyng J Culley y byddai'n gofyn am gyngor gan Un Llais Cymru gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £150k ar gyfer defnyddio technolegau digidol yn y sector.

*7.3.2 Defnyddio Hen Ysgol Llangoedmor*
Dywedwyd y byddai'r Ymddiriedolwyr yn hapus i weld gwelliannau yn yr Hen Ysgol ond na allent wneud ceisiadau am grantiau na gwneud gwaith eu hunain. Nodwyd, fel corff sy'n eiddo i'r Eglwys, na allai'r Cyngor Cymdeithas roi grant at waith ar ffabrig yr adeilad, ond y gallai ystyried cyfrannu at gyfarpar i'w ddefnyddio gan y gymuned. Heb allu defnyddio'r dechnoleg briodol, ni allai'r Cyngor gynnal cyfarfodydd yn yr adeilad.

Awgrymwyd y gallai'r Cyngor gynnal gweithgarwch yn y Neuadd i annog y gymuned i ymgysylltu â'r Cyngor.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gan mai un o ofynion y Pecyn Cymorth oedd archwilio dewisiadau Ymgysylltu â'r Gymuned, byddai'r mater yn cael ei ohirio nes byddai'r Cyngor yn cael adroddiad. | Cytunwyd |

Cytunwyd y byddai trefnu Mari Lwyd ar agenda mis Gorffennaf.

*7.4 Technoleg*
*E-bost penodedig*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| O gofio am brofiad Cyngor lleol arall, holi am ddyfynbrisiau am ddarpariaeth e-bost penodedig ac ymchwilio i ddulliau eraill o ddiogelu data. | Cytunwyd |

*7.5 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.6 Cylchlythyr*
Nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gynhyrchu cylchlythyr rheolaidd, ond efallai y gallai gefnogi un o ran costau cyfieithu, ac ati.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gosod neges ar FB yn gofyn am olygydd ar gyfer cylchlythyr. | Cytunwyd |

*7.7 Diweddariad am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Dywedwyd, ar ôl cysylltu â'r cyfreithiwr ystadau, fod yna gwestiynau o hyd gyda'r Gofrestrfa Tir. Gyda

rhywfaint o ddewis yn y mater, dywedodd y Clerc, gan mai ychydig wybodaeth gallai'r Cyngor ei chael, ei bod yn annhebygol, yn ei barn hi, y byddai cyfreithiwr wedi ei benodi gan y Cyngor yn cael canlyniad gwell ar hyn o bryd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Mynd at y parti arall i esbonio'r hyn mae'r tir yn ei olygu i'r gymuned a cheisio datrys y mater drwy drafod. | Cytunwyd |

7.8 Grantiau/Rhoddion

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Rhoi £250 i Jig-So. | Cytunwyd |

*7.9 Yswiriant*
Gweler 7.1.

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid  a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned*
Cyfarfod nesaf 22-05-23
Aelodau'r Pwyllgor Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwyo Cyhoeddus**
*9.1 Mannau gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*

*9.1.1 Arhosfan bws yng Nghroes- y-llan*
Cyflwynwyd drafft o holiadur

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gwneud newidiadau i'r holiadur. Dylai barhau'n benodol i Groes-y-llan. Os byddai ymholiadau'n deilwng mewn ardaloedd eraill, byddai'r rheiny'n cael sylw. | Cytunwyd |

Nodwyd bod y Cynghorwyr i gyd yn cynrychioli ward Llangoedmor, ac y dylent, hyd yn oed wrth gyfleu pryderon trigolion o ardal benodol, gynrychioli a chefnogi'r Ward gyfan.

*Gadawodd y Cyng K Symmons y cyfarfod.*

*9.1.2 Croesfan yn Llechryd*
Yn parhau.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
*9.2.1 Cofrestru llwybr troed.*
Roedd y cais am gofrestru'r llwybr troed nawr yn cael ei gydnabod gan CSP fel un 'wedi ei wneud yn briodol'. Nodwyd y llwyth gwaith o flwyddyn a oedd wedi pentyrru gan Gyngor Sir Penfro.

*9.2.3 Pont Llechryd/yr Afon - Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw weithredu pellach.*
Dywedodd y CS A Edwards ei bod wedi dangos y fideo o'r sbwriel a oedd wedi ei glirio wrth y bont i swyddogion CSC. Nodwyd y pryderon y byddai'r sbwriel yn disgyn yn ôl i'r afon a byddai hynny'n cael sylw.

*9.3 Diolch am 20 – Cyngor Cymdeithas Llangoedmor*
Roedd enghreifftiau o sticeri wedi cyrraedd.

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – dogfennau tenantiaeth*
Roedd copi wedi cyrraedd o'r brydles wedi ei diwygio. Byddai'r Clerc yn mynd drwyddi, ac os na fyddai dim cwestiynau i'r Cyfreithiwr, byddai'n anfon y drafft at y Cynghorwyr ac at Bwyllgor Neuadd y Cwrwgl.

*10.2 Man/Cae Chwarae – pob  penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd.

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Nid oedd y Clerc wedi gorffen llunio rhestr gyfredol ond byddai'n ychwanegu ffens wrth y gatiau mynediad i'r man chwarae a gosod bin newydd, mainc y plant a sicrhau'r fainc bicnic ar gyfer cadeiriau olwyn.

Mynegwyd pryder bod y bollt yn y ddaear ar y gât mynediad yn cael ei godi a'r gât yn cael ei gadael ar agor.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Edrych i weld a allai'r gât gael clo er mwyn atal hyn. | Cytunwyd |

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin.*
Yn parhau.

*10.2.3 Baw Cŵn*
Nodwyd bod camera eisoes yng nghefn yr adeilad yn Neuadd y Cwrwgl.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gosod arwyddion CCTV o gwmpas y cae. | Cytunwyd |

10.2.4 *Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
*Problemau Sovereign gyda'r gosod*
Roedd y broblem gosod wedi cyrraedd y pennaeth gwerthiant y cwmni, a fyddai'n ymweld â'r safle.

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Roedd gwybodaeth wedi cyrraedd iddi wrth y penseiri yn gynharach yn y dydd. Byddai'r Clerc yn ei hadolygu.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Mynd at yr yswirwyr i ofyn am ganiatâd i hanesydd ymweld â'r safle. | Cytunwyd |

*10.4 Adeilad y Mileniwm*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Trefnu archwilio'r coed. | Cytunwyd |

*10.5 Mainc goffa i drigolion*
Roedd cais wedi am ddyfynbris am osod.

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Yn parhau.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Nodwyd bod y gysgodfan bws ar Lôn y Ladi wedi ei thrwsio.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl – arwydd cyfeiriad wedi ei osod.
Llangoedmor
Yn disgwyl i'r diffibrileiddiwr gyrraedd. Gobeithid trefnu cyhoeddusrwydd ar ôl i'r diffibrileiddiwr gael ei osod. Gofynnwyd a allai hyfforddiant diffibrileiddiwr gael ei ddarparu yn Hen Ysgol Llangoedmor.

*10.9 Hysbysfyrddau*
Roedd y drws newydd wedi cyrraedd.

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Roedd manylion wedi eu darparu i'r Clerc.

**11. Digwyddiadau**
*11.1 Glanhau Afon Teifi*

*11.2 Picnic y Coroni, Dydd Sul 7 Mai*
Aeth y digwyddiad yn dda, ond gallai fod wedi ei gefnogi'n well. Roedd yr arddangosfa yn yr Eglwys yn wych, a gofynnwyd i'r Cyng C Lewis ddiolch i'r Eglwys am ei chefnogaeth.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ysgrifennu llythyr i ddiolch i'r siop sglodion, a oedd wedi agor i gefnogi'r digwyddiad. | Cytunwyd |

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*12.1 Cyng R Davies - Llywodraethwyr Ysgol*
Dywedwyd y byddai'r Pennaeth yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
*12.2 Cyngr A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies - Cyfarfod PACT*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru*
*Dywedodd fod Un Llais Cymru yn chwilio am adroddiadau am arfer da. Roedd hi wedi ei phenodi i'r Gweithgor Cenedlaethol*
*12.6 Cyngr J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Roedd pryder o fewn y Pwyllgor fod llawer iawn o amser yn mynd ar awdurdodi gollyngiadau i Gynghorwyr.
*12.7 Cyng C Lewis* Digwyddiad Rhanddeiliaid Afonydd
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

Strategaeth Tai Lleol Ceredigion, Ddydd Gwener 30 Mehefin 2023: Strategaeth Tai: Dweud Eich Dweud Ceredigion
Nodwyd

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 2023. Gwahoddir cynghorau sy'n aelodau i gyflwyno hyd at ddau gynnig ar gyfer dadl yn y CCB ddydd Sadwrn 30 Medi 2023. Rhaid iddynt gyrraedd y swyddfa hon erbyn canol dydd ar 23 Mehefin 2023 i'w hystyried gan Bwyllgor Cynigion y Gynhadledd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohirio tan yr agenda nesaf. | Cytunwyd |

*Gadawodd y Cyng G El Tawab y cyfarfod*.

**14. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth rhwng Cynghorwyr**

Bod bathodyn y swydd ar gyfer yr Is-gadeirydd yn cael ei ystyried. Ar agenda Mehefin.

Llongyfarch y Cyng A Edwards ar enedigaeth ŵyr/wyres.

Nodwyd nad oedd fan Swyddfa'r Post a oedd yn ymweld â'r pentref yn cael ei defnyddio ryw lawer ac y gallai'r gwasanaeth ddod i ben.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 05-06-23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.38pm.*

*Chairman's signature:* *Dated: 05-06-23*